# PWYLLGOR PERSONÉL

**(Committee Room 1/2 - Port Talbot Civic Centre)**

| **Aelodau sy'n bresennol:** | **Dydd Llun, 9 Medi 2019** |
|---|---|
| **Cadeirydd :** | **Councillor D.Jones** |
| **Is-gadwirydd:** | **Councillor D.Cawsey** |
| **Cynghorwyr**: | S.Bamsey, S.E.Freeguard, N.T.Hunt, J.Jones a/ac A.J.Taylor |
| **Aelodau di-bleidlais:** | Councillors C.Clement-Williams, A.R.Lockyer, P.A.Rees a/ac P.D.Richards |
| **Swyddogion yn bresennol:** | S.Rees, D.Hopkins, L.Doyle, L.Margetson, A.Hutchings a/ac N.Headon |

---

## 1. AWTOMEIDDIO PROSES ROBOTEG YN Y TÎM ADNODDAU DYNOL

Rhoddwyd cyflwyniad i'r pwyllgor ynghyd â diweddariad ar gynllun peilot technoleg awtomeiddio proses roboteg (RPA) yn y Tîm Adnoddau Dynol.

Esboniodd swyddogion fod cyflwyno'r dechnoleg newydd wedi lleihau'r amser yr oedd swyddogion yn ei dreulio ar waith prosesu data arferol gan eu galluogi i wneud gwaith mwy gwerthfawr lle mae angen ymyriad dynol.

Mae'r 'robot' yn defnyddio technoleg prism glas, ac mae un gweithiwr yn yr adran AD a dau weithiwr yn y tîm TGCh yn derbyn hyfforddiant i ddod yn Ddatblygwyr Prism Glas, gan ddarparu cadernid mewnol ar gyfer y cyngor.

Diolchodd yr Aelodau i'r Tîm Adnoddau Dynol am eu gwaith caled ar y cynllun peilot.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

2. **ADRODDIAD GWYBODAETH AM Y GWEITHLU**

Derbyniodd yr Aelodau drosolwg o'r Adroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu ar gyfer Chwarter 1 2019/20, fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd. Croesawodd swyddogion unrhyw adborth gan Aelodau.

Dangosodd yr Aelodau eu pryder ynghylch y nifer mawr o absenoldebau salwch ymysg staff addysgu. Eglurwyd i'r Aelodau fod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod athrawon yn cynrychioli un o grwpiau gweithwyr mwyaf y cyngor - cytunwyd y bydd adroddiadau'r dyfodol yn darparu data CALl gan y bydd Aelodau'n deall y cymariaethau rhwng gwasanaethau. Tynnodd swyddogion sylw at y gwahaniaethau galwedigaethol mewn salwch - gall rhywun sy'n gweithio mewn swyddfa ddisgwyl cael llai o salwch nag, er enghraifft, rywun sy'n gweithio y tu allan neu yn y sector gofal .

Cytunodd Aelod y Cabinet dros Gyllid ac Aelod y Cabinet dros Addysg, Sgiliau a Diwylliant i gwrdd i drafod salwch mewn ysgolion ac i ddeall sut gall profiad a rennir fod o fydd i ysgolion y cyngor.

Nodwyd y byddai adroddiadau a gyflwynir i aelodau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Personél yn y dyfodol yn cynnwys data chwarterol am leihad swyddi, ffigurau Cyfwerth Amser Llawn (CALl) ar gyfer pob gwasanaeth, yn ogystal â nifer y diwrnodau a gollwyd a'r rhaniad rhyw mewn ffigurau salwch. .

Cafwyd trafodaeth am nifer y staff a oedd yn absennol oherwydd straen ac amlygwyd bod absenoldebau oherwydd straen sy'n gysylltiedig â'r gwaith yn is nag absenoldebau oherwydd straen personol. Mynegodd yr Aelodau eu pryder ynghylch sut gellir ymdrin â hyn. Esboniodd swyddogion y byddem yn arwyddo Addewid Cyflogwyr Amser i Newid yn ystod mis Medi, ac y byddai hyn yn golygu y gallem gael mwy o gefnogaeth i helpu i wella lles staff.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

3. **CYMORTH ADNODDAU DYNOL A DDARPERIR I GEFNOGI GOSOD CYLLIDEB YSGOL/RHAGLEN STRATEGOL I WELLA'R YSGOL - GWANWYN 2019**

Darparwyd gwybodaeth i'r Aelodau am gefnogaeth yr adran Adnoddau Dynol (AD) i ysgolion a'r Rhaglen Strategol Gwella Ysgolion (RhSGY), fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

4. **DIWEDDARIAD AR GYNLLUNIO OLYNIAETH**

Darparwyd diweddariad i'r Aelodau ar gynllunio olyniant, fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd.

Tynnodd swyddogion sylw at y ffaith y datblygwyd y Pecyn Cymorth Cynllunio Olyniaeth, sef Atodiad 1 yr adroddiad a gylchredwyd, er mwyn helpu rheolwyr i nodi anghenion sgiliau a hyfforddiant gweithwyr/gweithwyr y dyfodol.

Nodwyd y byddai'r holl hyfforddiant, gan gynnwys e-ddysgu, ar gael i bob gweithiwr, ac y dylid trafod hyn fel rhan o adolygiad arfarnu perfformiad blynyddol y gweithiwr.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

5. **STATWS CYFLOGWR HYDERUS O RAN ANABLEDD**

Derbyniodd yr Aelodau ddiweddariad ar achrediad parhaus y cyngor i'r cynllun Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Nodwyd y byddai'r achrediad yn para am ddwy flynedd tan 6 Awst 2021.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

6. **Y DIWEDDARAF AM GYFLOGAU**

Derbyniodd yr Aelodau ddiweddariad ynghylch y trafodaethau cyflog cenedlaethol ar gyfer gweithwyr dan amodau a thelerau cyflogaeth 'Llyfr Gwyrdd' Gwasanaethau Llywodraeth Leol.

Nodwyd y byddai'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) yn ymgynghori â chyflogwyr drwy gyfres o sesiynau briffio tâl rhanbarthol yn ystod mis Medi a mis Hydref 2019. Byddai cyfarfod ymgynghori rhanbarthol Cymru'n cael ei gynnal yng Nghaerdydd yn ystod mis Medi. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried yr ymatebion fel y'u nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd a darparu adborth.

**PENDERFYNWYD** y caiff yr wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â thrafodaethau cyflog cenedlaethol, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad a gylchredwyd, ei nodi.

Cymeradwyo'r ymateb i gyfeirio'r ymgynghoriad rhanbarthol i gyflogwyr, fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd.

## 7. TREFNIADAU DISWYDDO GWIRFODDOL

Diweddarwyd yr Aelodau ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer Diswyddo Gwirfoddol (VR) i'w rhoi ar waith yn ystod mis Medi 2019.

Nodwyd y dywedir wrth weithwyr bod cyfleodd diswyddo wirfoddol ar gael iddynt fynegi diddordeb, a hynny'n barhaus ac am gyfnod amhenodol; byddai hyn yn galluogi mwy o hyblygrwydd wrth reoli newid i'r gweithlu ac ni fyddai'n cynnwys y rheini sy'n gweithio mewn ysgolion.

**PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad

**Cadeirydd**